**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/LG/0444/18

Russell George AC
Cadeirydd – Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Chwefror 2018

Annwyl Russell

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr yn holi am y newyddion diweddaraf ar elfennau cynllunio y Cynllun Gweithredu i Wella Cysylltedd Ffonau Symudol. Mae tri pwynt gweithredu ar gynllunio yn y ddogfen sy’n cwmpasu hawliau datblygu a ganiateir, y polisi cynllunio a TAN19/Cod Ymarfer.

O ran y cyntaf o’r rhain, cafodd yr adroddiad ymchwil ar hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer offer telathrebu ei gyhoeddi ym mis Ionawr ac mae’n bosibl ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru ar:

http://gov.wales/topics/planning/planningresearch/publishedresearch/planning-for-mobile-telecommunications-an-assessment-of-permitted-development-rights-in-wales/?skip=1&lang=cy

Bydd y gwaith ymchwil hwn yn llywio ymgynghoriad o hawliau datblygu a ganiateir fydd rwy’n rhagweld yn dechrau yn ystod gwanwyn 2018.

O ran diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (PPW), rwyf wedi lansio ymgynghoriad yn ddiweddar ar fersiwn diwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru. Mae fersiwn newydd y ddogfen yn tynnu sylw at y berthynas bositif rhwng telathrebu a’r economi a chyfraniad cysylltedd digidol i leoedd llwyddiannus.

Mae’n bosibl gweld y dogfennu ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru ar: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y trydydd pwynt ar TAN19 a Chod Ymarfer Gorau y Diwydiant yw camau gweithredu hirdymor y gellid dechrau arnynt unwaith y bydd elfennau deddfwriaethol a pholisi y ddau gam gweithredu cyntaf wedi'u cwblhau. Bydd fy swyddogion yn parhau i drafod gyda cynrychiolwyr y diwydiant ffonau symudol i benderfynu pa waith pellach y gellid ei wneud yn y maes hwn.

Yn gywir




**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs